

Dim camddealltwriaeth

*“...yr oeddem wrth natur, fel pawb arall, yn gorwedd dan ddigofaint Duw.”
(adn. 3–5)*

Beth am ddarllen Effesiaid 2:1–5 ac yna myfyrio

Mae nifer cynyddol o weinidogion ac athrawon yn yr Eglwys heddiw yn mynnu fod y syniad o ddigofaint Duw yn anghyson â'i gariad. Yn ôl John Stott, mae dyn (neu ddynoliaeth) yn wrthrych cariad ochr yn ochr â digofaint Duw. Mae'r Duw sydd yn ei gondemnio am ei anufudd-dod eisoes wedi trefnu ffordd i'w gyfiawnhau.

Mae'r gymhariaeth rhwng adnodau 3 ac adnodau 4 a 5 yn y darlenniad heddiw yn ddiddorol iawn. “Yr oeddech wrth natur yn wrthrychau digofaint, ond oherwydd ei gariad mawr tuag atom, bu i Dduw, sy'n gyfoethog mewn trugaredd, ein gwneud yn fyw yng Nghrist hyd yn oed pan oeddem yn feirw mewn camweddau trwy ras yr ydych yn gadwedig.” Mae Paul yn symud o ddigofaint Duw i drugaredd a chariad Duw heb unrhyw fath o wrth-ddweud. Mae Paul yn medru dal y ddau beth yma gyda'i gilydd, oherwydd bod y ddau beth yn cael eu dal gyda'i gilydd ym meddwl a chymeriad Duw. Ond a yw hyn yn gwneud Duw yn berson sydd â deuoliaeth yn perthyn iddo? Mae bron yn amhosibl i ni ddal yn ein meddwl y syniad o Dduw fel barnwr sydd yn cosbi troseddwy, a Duw sydd yn Dad yn ceisio iachawdwriaeth pechaduriaid ar yr un pryd. Ond dyna beth mae'r Ysgrythur yn ein dysgu i gredu.

Er bod y gair ‘digofaint’ yn swnio yn hagr, mae angen i ni ddeall beth yn union y mae'n ei olygu. Nid yw digofaint Duw yn debyg i'n gwylltineb ni. Mae digofaint Duw wedi ei setlo ar bob gwrthryfel, ar bob pechod. Mae digofaint Duw yn dangos i'r greadigaeth ac i'r bydysawd cyfan ei fod yn barod i faddau. Ond nid yw'n barod i'r anedifeiriol ddianc cosb pechod.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 20:4–6; 34:5–7; Heb. 12:5–11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth a ddywed Duw am ei hun?
2. Sut all cariad a chosb gyd-fyw?

Gweddi

O Dad, caniatâ i mi ddal yn fy meddwl, fel ag y bu i'r apostol Paul, y gwirionedd gyda golwg ar dy natur. Unwaith eto, rwy'n gofyn i ti beidio caniatâu i mi wrthod y gwirionedd oherwydd ei fod yn anodd ei dderbyn. Yn enw Iesu. Amen.